




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Welsh Cancer Intelligence and Surveillance Unit  
Uned Deallusrwydd a Gwyladwriaeth Cancer Cymru

[www.wcisu.wales.nhs.uk](http://www.wcisu.wales.nhs.uk)

MEDI 2015



PROFFIL CANSER YR YSGYFANT  
CLWSTWR MEDDYGAETH TEULU  
BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR



UN O GYFRES O SAITH PROFFIL BWRDD IECHYD

**Tîm y prosiect**

Rebecca Thomas, Tamsin Long, Gareth Davies a Martin Holloway

**Grŵp cyfeirio**

Ceri White, Helen Crowther, Joan Wilding, Karen Gully, Siôn Edwards, Richard Neal, Sean Young, John Lucy, Anne Thomas, Fiona Porter, Janet Warlow a Dyfed Wyn Huws

**Diolchiadau**

Diolch yn arbennig i holl staff Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru, yn enwedig y tîm cofrestru. Hebddynt ni fyddai'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn cael eu cynhyrchu.

Diolch i'r bobl ganlynol am eu cyfraniad at y cyhoeddiad hwn: Julie Howe, Ciarán Slyne, Lloyd Evans, Rhian Hughes, Tracy Price, Leon May, Tim Hughes a Linda Bailey

**Teitl:** Proffil Canser yr Ysgyfaint Clystyrau Meddygon Teulu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Dyddiad:** Cyhoeddwyd ar 17 Medi 2015

**ISBN:** 978-1-910768-13-6

**Cyswllt:**

Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru (WCISU)

16 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol

Caerdydd

CF11 9LJ

E-bost: [wcu.stats@wales.nhs.uk](mailto:wcu.stats@wales.nhs.uk)

Gwefan: [www.uggcc.wales.nhs.uk](http://www.uggcc.wales.nhs.uk)

© 2015 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon heb ganiatâd ymlaen llaw ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwyg yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## **Canllaw i ddefnyddio'r adroddiadau clystyrau meddygon teulu**

Dyma'r darn cyntaf o waith yr ydym wedi'i gynhyrchu ar lefel clwstwr meddygon teulu, ond y trydydd cynnyrch gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyhoeddodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Arsyllfa) Broffiliau Clystyrau Meddygon Teulu ar gyfer 2013 yn ôl bwrdd iechyd yng Nghymru ym mis Mawrth 2014. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad disgrifiadol o'r boblogaeth sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu a gwybodaeth am glefydau cronig hefyd ar gyfer nifer o gyflyrau sy'n cael effaith fawr ar wasanaethau megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, asthma a diabetes (<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/67724>). Caiff ei ategu gan daenlenni rhyngweithiol (<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/67884>). Yn ddiweddarach aeth yr Arsyllfa ymlaen i gyhoeddi proffiliau poblogaeth newydd ar gyfer practisau cyffredinol newydd ym mis Mehefin 2015 ar safle mewnwyd GIG Cymru (<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/922/news/52499>), a oedd yn cynnwys lefel practis meddyg teulu.

Yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn bwriadu dyblygu'r dadansoddiad disgrifiadol a gynhyrchwyd gan yr Arsyllfa ond yn hytrach dangos mynychder canser yr ysgyfaint a'r cyfraddau goroesi fesul clwstwr meddygon teulu o ran rhyw, oedran, amddifadedd a cham y clefyd adeg y diagnosis.

Mae'r holl siartiau a thablau yn yr adroddiad hwn (heb gynnwys y tablau ar nifer y bobl sy'n ysmegu) yn seiliedig ar drigolion Cymru sydd wedi cael diagnosis o ganser yr ysgyfaint yn ystod y cyfnod 2009-2013 ac sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru. Dangosir pob cyfradd mynychder fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Er mwyn aseinio cwintel amddifadedd ardal neu hanner amddifadedd ardal, defnyddiwyd maes incwm Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALIC14). Yn ystod y prosiect hwn, canfuwyd gwall ym maes incwm MALIC14 oherwydd bod rhywfaint o ddata ar gredydau treth wedi'i hepgor yn ddamweiniol. Dyma'r maes a ddefnyddir gan WCISU i aseinio cwintel amddifadedd neu hanner amddifadedd. Nododd Llywodraeth Cymru fod y gwall wedi achosi i ychydig dros 10 y cant o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOAs) symud rhwng degraddau, gyda dim ond un LSOA yn symud mwy nag un dengradd (<http://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-revision-notice-en.pdf>).

Dylid nodi nad oes gan glystyrau Meddygon Teulu ffiniau ffisegol gan eu bod yn seiliedig ar restrau grwpiau o bractisau yn hytrach na grwpiau o ardaloedd preswyl ac felly, nid oes modd eu cymharu â gwybodaeth a gynhyrchir ar sail ffiniau daearyddol.

Drwy'r adroddiad hwn, dim ond clystyrau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yr ydym wedi'u cymharu.

## **Diffiniadau**

### **Grwpiau oedran**

Mae'r grŵp oedran iau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at gleifion sy'n iau na 75 mlwydd oed adeg y diagnosis ac mae'r grŵp oedran hŷn yn cyfeirio at gleifion 75 oed a hŷn adeg y diagnosis.

### **Categoriâu camau**

Caiff cancer cam cynnar ei ddiffinio fel yr achosion hynny sy'n cael diagnosis yng ngham un neu gam dau. Caiff cancer cam hwyr ei ddiffinio fel yr achosion hynny sy'n cael diagnosis yng ngham tri neu bedwar ac nid oes gan ganser ar gam anhysbys gam diffiniedig. Gweler [www.wcisu.wales.nhs.uk](http://www.wcisu.wales.nhs.uk) am ragor o fanylion.

### **Cyfraddau syml a chyfraddau oedran-benodol**

Caiff cyfraddau syml eu cyfrifo drwy gymryd cyfanswm nifer yr achosion a'u rhannu â chyfanswm y boblogaeth ar gyfer yr ardal ac nid ydynt yn ystyried faint o hen bobl neu bobl ifanc sy'n rhan o'r boblogaeth. Caiff cyfradd oedran-benodol ei chyfrifo drwy gymryd cyfanswm nifer yr achosion mewn grŵp oedran penodol (ac ardal benodol), a rhannu hynny â chyfanswm y boblogaeth yn y grŵp oedran (a'r ardal).

### **Cyfraddau wedi'u safoni yn ôl oedran a chyfraddau Ewropeaidd wedi'u safoni yn ôl oedran (CSOE)**

Mae safoni yn ôl oedran yn addasu cyfraddau i ystyried faint o hen bobl neu bobl ifanc sy'n rhan o'r boblogaeth dan sylw. Pan fydd cyfraddau'n cael eu safoni yn ôl oedran, rydych yn gwybod nad yw gwahaniaethau yn y cyfraddau dros amser neu rhwng ardaloedd daearyddol yn adlewyrchu amrywiadau neu newidiadau yn strwythur oedran y boblogaeth yn unig. Mae hyn yn bwysig wrth edrych ar gyfraddau cancer oherwydd mae cancer yn effeithio ar bobl hŷn yn bennaf. Drwy'r adroddiad hwn rydym yn defnyddio Cyfraddau Ewropeaidd Wedi'u Safoni yn ôl Oedran (CSOE) gan ddefnyddio Poblogaeth Safonol Ewropeaidd (ESP) 2013 oni nodir fel arall.

### **Arwyddocâd ystadegol (a fynegir yn yr adroddiad hwn gyda chyfyngau hyder (CH) o 95%)**

Os yw'r gwahaniaeth mewn cyfraddau goroesi rhwng poblogaethau yn ystadegol arwyddocaol, mae'n golygu bod y gwahaniaeth yn annhebygol o fod wedi digwydd ar hap yn unig, ac y gallwn fod yn fwy hyderus ein bod yn gweld 'gwir' wahaniaeth. Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio'r torbwynt mympwyol confensiynol o lai na 5% o siawns i olygu ystadegol arwyddocaol. Nid yw'r ffaith bod gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol o reidrwydd yn golygu ei fod yn fawr neu'n bwysig – gall hynny ddibynnu ar ein barn a ffactorau eraill.

### **Cyfraddau Goroesi Cymharol**

Mae hyn yn ffordd o gymharu cyfraddau goroesi pobl sydd â chlefyd penodol - yn ein hachos ni, cancer - gyda chyfradd oesoedd'r boblogaeth yn gyffredinol, dros gyfnod penodol o amser. Caiff ei gyfrifo drwy rannu canran y cleifion sy'n dioddef o'r clefyd sy'n dal yn fyw ar ddiwedd y cyfnod o amser (e.e. un neu bum mlynedd ar ôl diagnosis) â chanran y bobl yn y boblogaeth gyffredinol o'r un rhyw ac oedran sy'n fyw ar ddiwedd yr un cyfnod. Mae'r gyfradd oesoedd gymharol yn dangos a yw'r clefyd yn byrhau bywyd. Rydym yn defnyddio cyfradd oesoedd gymharol yn yr adroddiad hwn.

# Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Cynnwys .....  | 5  |
| Crynodeb .....   | 7  |
| Cyflwyniad .....   | 9  |
| 1 Mynychder canser yr ysgyfaint.....   | 15 |
| Canfyddiadau allweddol .....   | 15 |
| a) Yn ôl rhyw .....  | 16 |
| b) Yn ôl oedran .....  | 20 |
| c) Yn ôl amddifadedd .....   | 21 |
| ch) Yn ôl amddifadedd ac oedran .....  | 24 |
| 2 Mynychder canser yr ysgyfaint yn ôl cam adeg y diagnosis.....                        | 26 |
| Canfyddiadau allweddol .....   | 26 |
| a) Yn ôl rhyw .....  | 27 |
| b) Yn ôl oedran .....  | 30 |
| c) Yn ôl amddifadedd .....   | 33 |
| 3 Cyfraddau goroesi canser yr ysgyfaint.....   | 36 |
| Canfyddiadau allweddol .....   | 36 |
| a) Yn ôl rhyw .....  | 37 |
| b) Yn ôl oedran .....  | 39 |
| c) Yn ôl amddifadedd .....   | 41 |
| ch) Yn ôl amddifadedd ac oedran .....  | 43 |
| 4 Cyfraddau goroesi canser yn ôl cam .....   | 44 |
| Canfyddiadau allweddol .....   | 44 |
| a) Yn ôl rhyw .....  | 45 |
| b) Yn ôl oedran .....  | 48 |
| c) Yn ôl amddifadedd .....   | 49 |
| Cyfeiriadau.....   | 50 |
| Atodiad 1 - Cyfrifiadau ar gyfer mynychder canser yr ysgyfaint.....                    | 52 |
| Atodiad 2 - Nifer yr achosion a marwolaethau ar gyfer goroesi canser yr ysgyfaint..... | 54 |



# Crynodeb

Canser yr ysgyfaint yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o ganser yng Nghymru ac mae'n dangos yr anghydraddoldebau ehangaf. Mae'r mynychder ymysg menywod yng Nghymru yn cynyddu'n gyflym ac mae ymhlith yr uchaf yn Ewrop. Ymysg dynion mae'n parhau i leihau. Mae'r bwlch rhwng nifer fawr yr achosion yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r cyfraddau is yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yn ehangu.

Mae'r nifer sy'n goroesi canser yr ysgyfaint yn fach. Mae tua 70 y cant o bobl yn marw o fewn blwyddyn o gael diagnosis yng Nghymru. Ein cyfraddau goroesi yw'r isaf yn Ewrop bron<sup>1</sup>. Mae gan bobl sy'n cael diagnosis yn 75 oed a hŷn ac sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru gyfraddau goroesi gwell na phobl yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Mae'r cyfraddau goroesi'n gwaethygu yn sgil cynnydd mewn amddifadedd ar gyfer diagnosis ar gam cynnar yn unig, ond mewn camau eraill mae'r cysylltiad yn aneglur<sup>2</sup>. Waeth beth yw amddifadedd ardal, ceir amrywiad daearyddol. Mae rhai ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig â chyfraddau goroesi gwaeth yn cynnwys diagnosis o gam hwyr a henaint. Mae dros 70 y cant yn goroesi flwyddyn os cânt ddiagnosis y cam cynharaf, ond mae'r rhan fwyaf o achosion - tua dwy ran o dair - yn cael diagnosis o gamau hwyr neu pan fydd rhywun farw. Gwyddom yn sgil archwiliadau canser yr ysgyfaint cenedlaethol mai cyfran fach o gleifion canser yr ysgyfaint sy'n cael triniaeth ddiffiniol yng Nghymru<sup>3</sup>.

Mae poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dilyn tueddiadau tebyg i epidemiolog genedlaethol canser yr ysgyfaint, gyda rhai nodweddion nodedig. Mae ganddo'r drydedd gyfradd mynychder uchaf o blith y byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun y ffaith bod mynychder yng Nghymru yn gymharol uchel yn Ewrop, a Betsi Cadwaladr sydd â'r bwlch amddifadedd ehangaf ond un o blith yr holl fyrddau iechyd o ran mynychder ymysg dynion. Mae cyfradd mynychder syml yr achosion o ganser yr ysgyfaint yn amrywio'n eang rhwng clystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr – ar gyfer menywod, mae'r gyfradd uchaf yn fwy na dwbl y gyfradd isaf. Ymysg menywod 75 oed a hŷn y gwelir yr amrywiad ehangaf o ran mynychder.

Er mai diagnosis ar gam hwyr yw'r mwyaf cyffredin yn yr holl fyrddau iechyd ac eithrio Powys, mae'r gyfran yn ardal Betsi Cadwaladr bron dri phwynt canran yn is na Chymru. Mae cyfran yr achosion cam anhysbys yn ystadegol arwyddocaol uwch na chyfradd Cymru<sup>a</sup>. Mae dosbarthiad y camau yn amrywio'n sylweddol ar draws y clystyrau, ac mae canlyniadau chwe chwstwr yn ystadegol arwyddocaol wahanol i ganlyniadau ardal Betsi Cadwaladr yn ei chyfanrwydd.

Yn ardal Betsi Cadwaladr y mae'r gyfradd oroesi uchaf o blith y byrddau iechyd ond, wrth gwrs, mae'n rhaid inni gofio bod gan Gymru gyfradd oroesi isel o gymharu â'r rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Yn gyffredinol, ni welir unrhyw duedd yn ôl amddifadedd, fodd bynnag, pan ystyrir oedran, mae'r cyfraddau goroesi'n well ymysg y grŵp oedran hŷn sy'n byw mewn ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Mae'r gyfradd oroesi'n is yn y grŵp oedran hŷn yn y rhan fwyaf o glystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr. Mae'r gyfradd oroesi yn ardal Betsi Cadwaladr yn ystadegol arwyddocaol uwch ar gyfer canser cam hwyr o gymharu â Chymru gyfan.

Mae goblygiadau ein hadroddiad ar gyfer clystyrau Betsi Cadwaladr yn glir. Awgryma'r cymariaethau yn rhyngwladol ac o fewn Cymru y gall cyfraddau mynychder is, llai o anghydraddoldeb a chyfraddau goroesi gwell fod yn bosibl ar lefel chwstwr. Er bod amrywiadau rhwng clystyrau o ganlyniad i niferoedd bach yn aml yn ein rhwystro rhag

---

<sup>a</sup> Ceir cyfran uchel o ganser cam anhysbys mewn achosion trawsffiniol lle y caiff pobl eu trin y tu allan i Gymru ac nid oes unrhyw wybodaeth am y cam yn cael ei derbyn gyda'u cofrestrriad canser. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar fwrdd iechyd Powys ac i raddau llai ar fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr.

dod i gasgliadau ystadegol cadarn, gall dehongli manylach gyda gwybodaeth leol arbenigol a thrwy ystyried Cymru a'r cyd-destun rhyngwladol ychwanegu at y ddealltwriaeth o'n canfyddiadau ar lefel clwstwr. Mae nifer y bobl sy'n ysmegu yng Nghymru wedi lleihau, ond gallai fod yn is, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd ac ymysg menywod. Mae ein hadroddiad yn bwrw rhywfaint o oleuni ar yr amrywiad mewn camau adeg y diagnosis ac mewn cyfraddau goroesi yn ôl cam mewn perthynas ag oedran, rhyw ac amddifadedd ar draws y clystyrau. Mae diagnosis cynharach a mynediad cyflym i driniaethau a allai fod yn iachaol, fel llawdriniaeth a radiotherapi, yn hanfodol i wella cyfraddau goroesi. Rydym yn gobeithio y gall ein hadroddiad gyfrannu at adolygiadau lefel clwstwr o achosion o ganser yr ysgyfaint a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynychder a'r cyfraddau goroesi gwael yng Nghymru.



# Cyflwyniad

## Mynychder cancer yr ysgyfaint

Canser yr ysgyfaint yw un o'r pedwar cancer mwyaf cyffredin yng Nghymru a'r cancer mwyaf cyffredin ledled y byd. Dyma'r cancer mwyaf cyffredin sy'n arwain at farwolaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Yng Nghymru, mae'n gyfrifol am fwy o farwolaethau bob blwyddyn na chanser y fron a chanser y colon a'r rhefr gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o ganser yr ysgyfaint yn ganser yr ysgyfaint nad yw'n ganser celloedd bach. Ar gam cynnar, mae'n bosibl ei iachau neu gellir gwella'r siawns o oroesi drwy lawdriniaeth a/neu radiotherapi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cael diagnosis o gam hwyr neu pan fyddant farw.

Cyfradd mynychder cancer yr ysgyfaint ymysg menywod yng Nghymru yw'r uchaf ond dau o blith 40 o wledydd Ewrop<sup>4</sup>. Mae'r gyfradd ymysg dynion yn uwch nag mewn 11 o'r 40 gwlad. Ni ellir anwybyddu mynychder cancer yr ysgyfaint unrhyw le yng Nghymru.

Mae nifer blynyddol yr achosion a'r gyfradd mynychder yn cynyddu ymysg menywod yng Nghymru, yn enwedig ymysg menywod hŷn. Dros gyfnod o ddeng mlynedd, mae'r ffigurau blynyddol wedi aros yn debyg ymysg dynion, ond maent wedi cynyddu fwy na thraean ymysg menywod. Ar y cyfan, cynyddodd y niferoedd ddeg y cant. Mae nifer blynyddol yr achosion ymysg menywod yn araf agosáu at nifer yr achosion ymysg dynion erbyn hyn. Yng Nghymru yn 2013, roedd 1343 o achosion newydd ymysg dynion a 1075 ymysg menywod. Gwelwyd tua dwy ran o dair o'r achosion ymysg pobl rhwng 60 a 79 oed, roedd ychydig dros ddeg y cant ymysg y rhai o dan 60 oed, a chwarter yr achosion ymysg pobl 80+ oed.

## Ffactorau risg

Ysmygu (gan gynnwys mwg tybaco amgylcheddol neu ysmygu goddefol) sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r achosion o ganser yr ysgyfaint, felly mae modd ei atal i raddau helaeth drwy reoli tybaco'n effeithiol a thrwy fynd i'r afael â ffactorau risg addasadwy eraill. Gall fod yn gyfrifol am dros 90 y cant o achosion ymysg dynion ac oddeutu 78 y cant ymysg menywod<sup>5</sup>. Yn Arolwg Iechyd Cymru 2013<sup>6</sup>, hunangofnododd 21 y cant o oedolion 16 oed neu hŷn eu bod yn ysmygu bob dydd neu'n achlysurol. Mae rhagor o fanylion yn nhabl 2. O gymharu, adroddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)<sup>7</sup> fod 14 y cant o oedolion yn ysmygu bob dydd yn Sweden yn 2010. Mae gan y cyfraddau ysmygu hyn oblygiadau ar gyfer y dyfodol, ond mae mynychder cancer yr ysgyfaint a welir heddiw yn adlewyrchu'r patrymau ysmygu yn y 1970au, yr 80au a'r 90au cynnar – cyrhaeddodd y cyfraddau ysmygu sigarêts ymysg dynion uchafbwynt yn y 1940au, ond cyrhaeddodd y cyfraddau ymysg menywod uchafbwynt ddiwedd yr 1980au, pan oedd y bwlch rhwng dynion a menywod yn lleihau.

Rydym yn amcangyfrif ymysg ysmygwyr a phobl nad ydynt yn ysmegu yng Nghymru, y gwneir diagnosis o tua 36 o achosion newydd o ganser yr ysgyfaint bob wythnos o ganlyniad i effeithiau mwg tybaco, a naw yr wythnos oherwydd ffactorau eraill fel nwy radon ymbelydrol sy'n digwydd yn naturiol, dod i gysylltiad ag asbestos a llygredd aer oherwydd trafndiaeth<sup>4</sup>.

Ar wahân i'r risg o fesothelioma yn sgil asbestos, mae'r risg o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos hefyd yn eithaf uchel, ond dim ond pobl mewn galwedigaethau penodol a ddaeth i gysylltiad ag ef, ynghyd â'u priod neu bartneriaid yn y cartref – mae ysmegu yn cynyddu'r risg o ganser yr ysgyfaint yn sgil asbestos yn sylweddol. Mae'r risg yn sgil radon yn gymedrol, ond yn cynyddu yn sgil mwy o amlygiad i radon mewn cartrefi a gweithleoedd – mae'r risg yn uwch o lawer ymysg ysmygwyr, a gall llawer o bobl ddod i gysylltiad â'r ddau. Oherwydd daeareg Cymru, mae sawl rhan o'r wlad yn gorwedd mewn ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan radon. Mae'r risg yn sgil llygredd aer sy'n cynnwys gronynnau mân yn yr awyr agored yn gymedrol, ond yn cynyddu gyda mwy o lygredd, yn bennaf yn deillio o drafnidiaeth - gall llawer o bobl ddod i gysylltiad ag ef ac mae llygredd gronynnol sy'n gysylltiedig â thraffig yn cynyddu.

Mae cysylltiad hefyd rhwng llwch silica a'r risg o ganser yr ysgyfaint lle mae cysylltiad hirdymor â llwch silica wedi achosi silicosis yn yr ysgyfaint, ond nid yn sgil dod i gysylltiad â llwch silica yn unig. Arferai silicosis fod yn gyffredin yng Nghymru ymysg glowyr a chwarelwyr llechi.

## **Amddifadedd a mynychder canser yr ysgyfaint**

Canser yr ysgyfaint sydd â'r cysylltiad cryfaf ag amddifadedd o'r holl fathau mwyaf cyffredin o ganser, yn bennaf oherwydd y cysylltiad ag ysmegu a diwydiannau'r gorffennol. Gwneir diagnosis o dros ddwywaith cymaint o achosion newydd o ganser yr ysgyfaint bob blwyddyn yn yr ardaloedd yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru o gymharu â'r pumed â'r amddifadedd lleiaf. Mae graddiant y gyfradd mynychder hefyd yn cynyddu'n sylweddol o'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf i'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf – mae'r gyfradd tua dwy a hanner gwaith yn uwch yn yr ardaloedd yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf o gymharu â'r ardaloedd yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf. Mae'r bwlch hwn yn y gyfradd mynychder rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf â'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf wedi cynyddu mwy na chwarter mewn deng mlynedd.

## **Cyfraddau goroesi gwael ond posibilrwydd o wella**

Mae cyfraddau goroesi canser yr ysgyfaint yn wael o gymharu â'r rhan fwyaf o fathau cyffredin eraill o ganser. Mae tua 70 y cant o'r holl bobl sydd â chanser yr ysgyfaint yng Nghymru yn marw o'r clefyd o fewn blwyddyn.

Y cyfraddau goroesi cymharol ar gyfer canser yr ysgyfaint yng Nghymru yw'r'r isaf bron yn Ewrop – safle 28 o blith 29 o wledydd yn yr astudiaeth Eurocare<sup>1</sup>. Mae'r cyfraddau goroesi canser yr ysgyfaint ar ôl blwyddyn yng Nghymru gyda'r isaf o holl wledydd y DU, a hynny'n gyson<sup>2</sup> ar gyfer dynion a menywod – y cynnydd bach ers 1999 yw'r cynnydd lleiaf yn y DU.

Mae cyfraddau goroesi'n lleihau'n sylweddol gydag oedran. Ceir cysylltiad cryf rhwng cam canser yr ysgyfaint adeg y diagnosis a chyfraddau goroesi ar ôl blwyddyn. Mae modd iachau canser yr ysgyfaint neu wella'r cyfraddau goroesi os gwneir diagnosis cynnar ohono, ond mae llawer o ffactorau eraill yn chwarae rhan yn ogystal â diagnosis cynnar.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cael diagnosis o gam hwyr o'r clefyd neu pan fyddant farw, ond mae 17 y cant yn cael diagnosis o gam cynnar (cam 1 a cham 2), pan fydd modd gwella'r clefyd drwy lawdriniaeth a radiotherapi. Mae'r ffigurau hyn yn amrywio rhwng poblogaethau byrddau ieuchyd.

Yn gyffredinol, prin yw'r amrywiad mewn cyfraddau goroesi fesul ardal o amddifadedd, sy'n wahanol i'r anghydraddoldebau eang o ran mynychder. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mawr yn y cyfraddau goroesi ar gyfer achosion o ganser yr ysgyfaint cam cynnar y gellid o bosibl eu trin a'r cyfraddau ar gam hwyr, lle mae cyfraddau goroesi blwyddyn yng Nghymru yn 71 y cant ar gyfer achosion ar gam cynnar, ond dim ond 23 y cant ar gyfer achosion o ganser ar gam hwyr yng Nghymru.

## **Pwysigrwydd clystyrau meddygon teulu**

Amlinellodd y *Rhaglen Lywodraethu*<sup>8</sup> gamau gweithredu i gefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Yn gynyddol mae hyn yn golygu cynnwys pobl yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau ar gyfer eu cymuned. *Gofynnodd Law yn Llaw at Iechyd*<sup>9</sup> – y weledigaeth bum mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru - i bob un o sefydliadau'r GIG weithio gyda'i gymuned a'i bartneriaid i gynllunio a datblygu gwasanaethau i wella ansawdd a sicrhau cynaliadwyedd. Yn y *Cynllun ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol ar gyfer Cymru*<sup>10</sup>, amlygir cynllunio gofal yn lleol fel un o bum maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu arnynt.

Mae byrddau iechyd wedi datblygu trefniadau ar gyfer grwpiau bach o bractisau meddygon teulu, a elwir yn glystyrau meddygon teulu, i weithio ar y cyd i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned, gan wasanaethu poblogaethau sydd wedi' cofrestru gyda meddyg teulu o rhwng 25,000 a 100,000 o gleifion. Ar hyn o bryd mae 64 o glystyrau o'r fath yng Nghymru ac mae 14 ohonynt yn gysylltiedig â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bwriedir i'r dull hwn gynnwys yr holl wasanaethau lleol mewn ymateb cydgysylltiedig i ddiwallu'r angen drwy fodel iechyd cymdeithasol i hybu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol.

*Cyhoeddwyd Proffiliau Clwstwr Meddygon Teulu 2013* gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru<sup>11</sup> yn 2013 ac fe'u dilynwyd yn ddiweddarach gan *Broffiliau newydd ar gyfer poblogaeth practisau cyffredinol* ym mis Mehefin 2015 ar eu safle mewnwyd<sup>12</sup>. Roeddent yn rhan o gudd-wybodaeth iechyd o ansawdd uchel gyda'r bwriad o lywio dadansoddiad lleol a phennu blaenoriaethau a helpu i ymgysylltu â chymunedau lleol wrth ddatblygu atebion priodol. Maent wedi bod yn sail i asesiadau o anghenion a chynlluniau gweithredu lleol.

Yn ogystal, nodwyd bod atal a chanfod canser yn gynnar yn Faes Blaenoriaeth Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol yn 2014/15 a 2015/16, gan gydnabod y canlyniadau goroesi canser cymharol wael yng Nghymru o gymharu â'r gorau yn Ewrop. Gwneir dadansoddiad manwl drwy adolygiadau o achosion unigol i ymchwilio i oedi posibl mewn diagnosis a thriniaeth a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella gwasanaethau, gan gynnwys ar gyfer achosion o ganser yr ysgyfaint. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan yr hyn a ddysgir oddi wrth y Prosiect Partneriaeth Meincnodi Canser Rhyngwladol. Bwriedir i'n Proffiliau Canser yr Ysgyfaint Clystyrau Meddygon Teulu lywio'r broses hon hefyd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys yr 14 clwstwr meddygon teulu canlynol:

**Tabl 1: Mae clystyrau Meddygon Teulu Betsi Cadwaladr yn cynnwys 114 o bractisau i gyd, pob un â baich amrywiol o ganser yr ysgyfaint**


| Clwstwr meddyg teulu                | Nifer y practisau meddygon teulu | Maint cyfartalog y rhestr flynyddol <sup>i</sup> | Nifer cyfartalog yr achosion o ganser yr ysgyfaint bob blwyddyn | Cyfradd syml fesul 100,000 o'r boblogaeth |
|-------------------------------------|----------------------------------|--|---|---|
| Arfon                               | 12                               | 68660  | 40  | 58.3*                                     |
| Gorllewin a Gogledd Wrecsam         | 6                                | 39479  | 27  | 69.4                                      |
| Dwyfor                              | 6                                | 25217  | 18  | 71.4                                      |
| Tref Wrecsam                        | 7                                | 51941  | 38  | 73.2                                      |
| Canol a De Sir Ddinbych             | 8                                | 42526  | 33  | 78.5                                      |
| Yr Wyddgrug, Bwcle a Chaergwrle     | 8                                | 48766  | 39  | 79.2                                      |
| Ynys Môn                            | 11                               | 66202  | 53  | 80.4                                      |
| Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney | 8                                | 60556  | 49  | 81.2                                      |
| De Wrecsam                          | 8                                | 47292  | 40  | 84.2                                      |
| Treffynnon a'r Fflint               | 7                                | 39163  | 34  | 85.8                                      |
| Gorllewin Conwy                     | 12                               | 62892  | 54  | 86.2                                      |
| Meirionnydd                         | 6                                | 32284  | 28  | 88.0                                      |
| Dwyrain Conwy                       | 7                                | 54245  | 56  | 102.5**                                   |
| Gogledd Sir Ddinbych                | 8                                | 59217  | 63  | 105.7**                                   |
| <b>Cyfanswm</b>                     | <b>114</b>                       | <b>698440</b>                                    | <b>572</b>  | <b>81.9</b>                               |

<sup>i</sup> Cleifion Cymreig yn unig

\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr Wedi'u trefnu yn ôl cyfradd syml

Mae'r map canlynol yn dangos lle mae'r practisau ym mhob clwstwr:

**Y meddygfeydd ym mhob clwstwr meddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr**



© Hawfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2015. Arolwg Ordhans 100044810  
 DS. Nodwch fod rhai practisau meddygon teulu yn goryffwrdd ac nad yw'r blychau yn cynrychioli'r ffin rhwng y clystyrau


# 1 Mynychder canser yr ysgyfaint

## Canfyddiadau allweddol

- Mae cyfradd mynychder canser yr ysgyfaint wedi'i safoni yn ôl oedran yn ardal Betsi Cadwaladr yn debyg i gyfradd yr achosion yng Nghymru ar gyfer y ddau ryw
- Ceir amrywiad eang yng nghyfradd mynychder syml canser yr ysgyfaint rhwng clystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr. Ar gyfer menywod, mae'r gyfradd mynychder syml isaf yn Arfon yn llai na hanner y gyfradd uchaf yng Ngogledd Sir Ddinbych, ac mae'r ddwy gyfradd yn ystadegol arwyddocaol wahanol i'r gyfradd ar gyfer menywod yn ardal Betsi Cadwaladr
- Mae tuedd gyffredinol i gyfraddau mynychder canser yr ysgyfaint yng nghlystyrau Betsi Cadwaladr fod yn uwch ymysg dynion na menywod, gyda rhywfaint o amrywiad
- Ar gyfer y ddau grŵp oedran, mae gan fenywod yn y clwstwr â'r gyfradd mynychder uchaf o ganser yr ysgyfaint gyfraddau sy'n ystadegol arwyddocaol uwch na menywod yn ardal Betsi Cadwaladr ar gyfer pob grŵp oedran a thros ddwbl cyfradd y menywod yn y clwstwr â'r gyfradd mynychder isaf
- Er bod cyfraddau mynychder canser yr ysgyfaint mewn clystyrrau yn llawer uwch yn y grwpiau oedran hŷn na'r rhai iau, yn gyffredinol mae mwy o achosion yn digwydd ymysg y rhai o dan 75 mlwydd oed
- Mae'r gyfradd mynychder canser yr ysgyfaint yn cynyddu'n sydyn o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru i'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf ac o fewn pob bwrdd iechyd, sy'n batrwm a welir hefyd yn y rhan fwyaf o'r clystyrau
- Mae gan Betsi Cadwaladr y bwlch amddifadedd mwyaf ond un o blith yr holl fyrddau iechyd ar gyfer mynychder canser yr ysgyfaint ymysg dynion, wrth gymharu'r ardaloedd sydd yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf a'r pumed â'r amddifadedd mwyaf
- Mae'r bwlch amddifadedd o ran mynychder canser yr ysgyfaint yn debyg ymysg y grwpiau oedran iau a hŷn ar gyfer Cymru gyfan a Betsi Cadwaladr - gwelir patrwm tebyg mewn ychydig o glystyrau Betsi Cadwaladr

## a) Yn ôl rhyw

**Ffigur 1: Mae cyfradd mynychder canser yr ysgyfaint wedi'i safoni yn ôl oedran yn adral Betsi Cadwaladr yn debyg iawn i gyfradd yr achosion yng Nghymru ar gyfer y ddau ryw**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru  
Wedi'u trefnu yn ôl personau, CSOE  
DS. Peidiwch â chymharu ffigur 1 sy'n dangos CSOE â ffigur 2 sy'n dangos cyfraddau syml

**Tabl 2: Mae ychydig dros un o bob pump o bobl Cymru yn ysmegu gyda dim ond gwahaniaethau bach rhwng poblogaethau'r byrddau iechyd**


| Bwrdd Iechyd           | Cyfraddau Ysmygu (%) | Safle o blith y 7 bwrdd iechyd <sup>ii</sup> |
|------------------------|----------------------|--|
| Powys                  | 18.1                 | 1  |
| Hywel Dda              | 18.9                 | 2  |
| Caerdydd a'r Fro       | 19.3                 | 3  |
| Betsi Cadwaladr        | 20.4                 | 4  |
| Abertawe Bro Morgannwg | 20.7                 | 5  |
| Aneurin Bevan          | 21.7                 | 6  |
| Cwm Taf                | 22.1                 | 7  |
| Cymru                  | 20.4                 |  |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn deillio o Ddata y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd 2013/14 (QOF)

<sup>ii</sup> 1 = cyfraddau ysmygu isaf, 7 = cyfraddau ysmygu uchaf  
Wedi'u trefnu yn ôl safle



**Ffigur 2: Ar gyfer menywod, mae'r gyfradd mynychder syml isaf yn Arfon yn llai na hanner y gyfradd uchaf yng Ngogledd Sir Ddinbych, ac mae'r ddwy gyfradd yn ystadegol arwyddocaol wahanol i'r gyfradd ar gyfer menywod yn ardal Betsi Cadwaladr**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr  
 Wedi'u trefnu yn ôl personau, cyfradd syml  
 DS. Peidiwch â chymharu ffigur 1 sy'n dangos CSOE â ffigur 2 sy'n dangos cyfraddau syml

**Tabl 3: Mae'r gyfradd ysmegu bron wyth pwynt canran yn uwch yn y clystyrau uchaf o gymharu â'r clystyrau isaf yn ardal Betsi Cadwaladr**

| <b>Clwstwr meddygon teulu</b>       | <b>Cyfraddau Ysmegu (%)</b> | <b>Safle o blith y 64 bwrdd iechyd<sup>iii</sup></b> |
|-------------------------------------|-----------------------------|--|
| Yr Wyddgrug, Bwcle a Chaergwrle     | 16.5                        | 7  |
| Canol a De Sir Ddinbych             | 17.2                        | 14   |
| Gorllewin Conwy                     | 19.1                        | 19   |
| Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney | 19.1                        | 20   |
| Arfon                               | 19.6                        | 25   |
| Dwyfor                              | 19.8                        | 26   |
| Meirionnydd                         | 20.0                        | 28   |
| Gorllewin a Gogledd Wrecsam         | 20.7                        | 31   |
| Dwyrain Conwy                       | 20.9                        | 34   |
| De Wrecsam                          | 21.1                        | 35   |
| Treffynnon a'r Fflint               | 21.2                        | 37   |
| Ynys Môn                            | 21.6                        | 39   |
| Tref Wrecsam                        | 23.1                        | 47   |
| Gogledd Sir Ddinbych                | 24.2                        | 54   |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn deillio o Ddata y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd 2013/14 (QOF)

<sup>iii</sup> 1 = y gyfradd ysmegu isaf, 64 = y gyfradd ysmegu uchaf  
Wedi'u trefnu yn ôl safle

Er bod gan boblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfradd mynychder canser yr ysgyfaint tebyg iawn i Gymru ar gyfer dynion a menywod, dylem gofio bod gan Gymru a'r byrddau iechyd gyfraddau uchel o hyd o gymharu â llawer o wledydd Ewrop<sup>13</sup>.

Ceir amrywiaeth sylweddol rhwng clystyrau Betsi Cadwaladr gyda'r cyfraddau yn Arfon yn ystadegol arwyddocaol is nag ardal Betsi Cadwaladr yn gyffredinol (tabl 1), a'r cyfraddau yn Nwyrain Conwy a Gogledd Sir Ddinbych yn ystadegol arwyddocaol uwch. Er nad yw cyfraddau ysmegu cyfoes yn y byrddau iechyd a'r clystyrau yn dangos y tueddiadau hanesyddol inni, mae'r gyfradd yn gymharol gyson â'r amrywiad a welwyd ym mynychder canser yr ysgyfaint. Bydd amrywiad sylweddol ym mhroffiliau oedran poblogaethau'r practisau hefyd yn cyfrif am swm mawr o'r achosion.

Arfon yw'r clwstwr meddygon teulu mwyaf yn ardal Betsi Cadwaladr o ran maint y rhestr cleifion a dyma lle y gwelir y gyfradd isaf o ganser yr ysgyfaint o blith y pedwar ar ddeg o glystyrau meddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr.

Yn ôl y disgwyl, mae tuedd gyffredinol i fynychder canser yr ysgyfaint yng nghlystyrau Betsi Cadwaladr fod yn uwch ymysg dynion na menywod. Gallwn weld bod y gyfradd ar gyfer menywod yn Arfon yn ystadegol arwyddocaol is ac mae'r gyfradd ar gyfer menywod yng Ngogledd Sir Ddinbych yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r gyfradd ar gyfer Betsi Cadwaladr. Yn ogystal, mae'r gyfradd ymhlith menywod yng Ngogledd Sir Ddinbych yn fwy na dwbl y gyfradd ymysg menywod yn Arfon (100.9 o gymharu â 45.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno). Gwelir gwahaniaeth llai ymysg dynion, er bod y gyfradd mynychder ar gyfer dynion yn Arfon yn ystadegol arwyddocaol is nag yn

## Adran 1 - Mynychder canser yr ysgyfaint

ardal Betsi Cadwaladr ar 71.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Yng Ngogledd Sir Ddinbych y mae'r gyfradd mynychder uchaf ar gyfer dynion a menywod ac mae yn safle uchaf o blith yr holl glystyrau meddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr ar gyfer y bobl sy'n ysmegu.

Yn gyffredinol, ar gyfer y byrddau iechyd yng Nghymru, mae'r gyfradd ar gyfer menywod rhwng 30 a 40 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn is na'r gyfradd ar gyfer dynion. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi adrodd yn flaenorol<sup>4</sup>, er bod cyfraddau canser yr ysgyfaint ymysg menywod yng Nghymru yn parhau i fod yn is na'r cyfraddau ymysg dynion, mae'r bwlch yn cau gan fod y gyfradd ymysg menywod yn cynyddu a'r gyfradd ymysg dynion yn sefydlogi.

## b) Yn ôl oedran

**Tabl 4: Mae'r gyfradd mynychder ar gyfer dynion yn ardal Betsi Cadwaladr yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r gyfradd ar gyfer menywod yn y ddau grŵp oedran**

|                        | <75 oed           |  |                   |  | 75+ oed           |  |                   |  |
|------------------------|-------------------|--|-------------------|--|-------------------|--|-------------------|--|
|                        | Dynion            |  | Menywod           |  | Dynion            |  | Menywod           |  |
|                        | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) |
| <b>Betsi Cadwaladr</b> | <b>889</b>        | <b>57.0 (53.3, 60.9)</b>                                 | <b>737</b>        | <b>47.3 (43.9, 50.8)</b>                                 | <b>749</b>        | <b>568.5 (528.5, 610.7)</b>                              | <b>533</b>        | <b>277.3 (254.2, 301.8)</b>                              |
| Hywel Dda              | 491               | 57.2 (52.3, 62.5)  | 406               | 47.1 (42.6, 51.9)  | 365               | 468.0 (421.2, 518.5)                                     | 243               | 220.8* (193.9, 250.4)                                    |
| Abertawe Bro Morgannwg | 632               | 53.3 (49.3, 57.7)  | 518               | 43.9 (40.2, 47.8)  | 468               | 527.8 (481.1, 577.9)                                     | 430               | 324.4 (294.5, 356.6)                                     |
| Caerdydd a'r Fro       | 462               | 42.4* (38.6, 46.5)                                       | 381               | 34.6* (31.2, 38.3)                                       | 374               | 568.0 (511.9, 628.6)                                     | 298               | 289.7 (257.7, 324.5)                                     |
| Cwm Taf                | 426               | 63.3** (57.4, 69.6)                                      | 325               | 47.7 (42.6, 53.1)  | 283               | 627.6 (556.6, 705.1)                                     | 274               | 400.7** (354.7, 451.1)                                   |
| Aneurin Bevan          | 690               | 52.4 (48.6, 56.5)  | 509               | 38.2 (35.0, 41.7)  | 502               | 530.9 (485.4, 579.4)                                     | 471               | 340.0** (309.9, 372.1)                                   |
| Powys                  | 138               | 46.2 (38.8, 54.6)  | 102               | 34.6 (28.2, 41.9)  | 124               | 414.1* (344.5, 493.8)                                    | 69                | 168.2* (130.8, 212.8)                                    |
| <b>Cymru</b>           | <b>3728</b>       | <b>53.4 (51.7, 55.2)</b>                                 | <b>2978</b>       | <b>42.5 (41.0, 44.0)</b>                                 | <b>2865</b>       | <b>536.7 (517.2, 556.7)</b>                              | <b>2318</b>       | <b>295.1 (283.2, 307.3)</b>                              |

\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru

**Tabl 5: Mae cyfraddau mynychder yng nghlystyrau Betsi Cadwaladr yn amrywio'n eang ymysg y rhai 75 oed a hŷn - mae'r gyfradd ymysg menywod hŷn yng Nglannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney yn ystadegol arwyddocaol uwch na chyfradd Betsi Cadwaladr**


|                                     | <75 oed           |  |                   |  | 75+ oed           |  |                   |  |
|-------------------------------------|-------------------|--|-------------------|--|-------------------|--|-------------------|--|
|                                     | Dynion            |  | Menywod           |  | Dynion            |  | Menywod           |  |
|                                     | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) | Nifer yr achosion | Cyfradd oedran-benodol fesul 100,000 o'r boblogaeth (CH) |
| <b>Cwstwr meddyg teulu</b>          |                   |  |                   |  |                   |  |                   |  |
| Dwyrain Conwy                       | 67                | 55.8 (43.2, 70.8)  | 67                | 56.1 (43.5, 71.2)  | 85                | 671.0 (536.0, 829.7)                                     | 59                | 311.6 (237.2, 402.0)                                     |
| Gorllewin Conwy                     | 79                | 56.6 (44.8, 70.6)  | 71                | 51.4 (40.1, 64.8)  | 67                | 449.5 (348.4, 570.9)                                     | 54                | 246.6 (185.3, 321.8)                                     |
| Ynys Môn                            | 94                | 62.2 (50.3, 76.1)  | 52                | 35.4 (26.5, 46.5)  | 74                | 547.6 (430.0, 687.5)                                     | 46                | 234.6 (171.7, 312.9)                                     |
| Arfon                               | 73                | 44.6 (35.0, 56.1)  | 47                | 30.4* (22.3, 40.4)                                       | 50                | 522.5 (387.8, 688.9)                                     | 30                | 194.7 (131.4, 277.9)                                     |
| Dwyfor                              | 33                | 58.6 (40.3, 82.3)  | 16                | 29.6 (16.9, 48.1)  | 23                | 376.0 (238.4, 564.2)                                     | 18                | 187.8 (111.3, 296.7)                                     |
| Meirionnydd                         | 35                | 48.6 (33.9, 67.6)  | 38                | 54.3 (38.4, 74.5)  | 35                | 437.6 (304.8, 608.5)                                     | 34                | 298.4 (206.6, 416.9)                                     |
| De Wrecsam                          | 59                | 53.8 (40.9, 69.4)  | 60                | 56.1 (42.8, 72.2)  | 48                | 605.2 (446.2, 802.4)                                     | 32                | 270.4 (185.0, 381.8)                                     |
| Tref Wrecsam                        | 68                | 55.9 (43.4, 70.9)  | 42                | 35.5 (25.6, 48.0)  | 46                | 594.5 (435.3, 793.0)                                     | 34                | 284.4 (196.9, 397.4)                                     |
| Gorllewin a Gogledd Wrecsam         | 39                | 41.7 (29.6, 57.0)  | 43                | 48.1 (34.8, 64.8)  | 33                | 555.5 (382.4, 780.1)                                     | 22                | 261.2 (163.7, 395.5)                                     |
| Yr Wyddgrug, Bwcle a Chaergwle      | 61                | 54.2 (41.4, 69.6)  | 53                | 47.8 (35.8, 62.5)  | 55                | 663.0 (499.4, 862.9)                                     | 24                | 200.3 (128.4, 298.1)                                     |
| Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney | 81                | 57.1 (45.4, 71.0)  | 57                | 40.8 (30.9, 52.9)  | 56                | 624.8 (472.0, 811.3)                                     | 52                | 420.6** (314.2, 551.6)                                   |
| Treffynnon a'r Fflint               | 46                | 50.0 (36.6, 66.7)  | 47                | 52.7 (38.7, 70.1)  | 44                | 744.1 (540.7, 999.0)                                     | 31                | 353.8 (240.4, 502.2)                                     |
| Canol a De Sir Ddinbych             | 53                | 54.6 (40.9, 71.4)  | 38                | 39.8 (28.2, 54.7)  | 46                | 533.5 (390.6, 711.6)                                     | 30                | 261.3 (176.3, 373.0)                                     |
| Gogledd Sir Ddinbych                | 86                | 64.4 (51.5, 79.5)  | 90                | 67.5** (54.3, 83.0)                                      | 75                | 631.0 (496.3, 791.0)                                     | 62                | 357.1 (273.8, 457.8)                                     |
| <b>Betsi Cadwaladr</b>              | <b>889</b>        | <b>57.0 (53.3, 60.9)</b>                                 | <b>737</b>        | <b>47.3 (43.9, 50.8)</b>                                 | <b>749</b>        | <b>568.5 (528.5, 610.7)</b>                              | <b>533</b>        | <b>277.3 (254.2, 301.8)</b>                              |

\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr

Mae'r cyfraddau ymysg menywod o dan 75 oed yng Ngogledd Sir Ddinbych ac ymysg menywod 75 oed a hŷn yng Nglannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r cyfraddau cyfatebol yn ardal Betsi Cadwaladr. Mae'r cyfraddau hefyd yn fwy na dwbl y gyfradd mynychder isaf ar gyfer Dwyfor ar gyfer pob grŵp oedran.


### c) Yn ôl amddifadedd

**Ffigur 3: Mae cyfraddau mynychder cancer yr ysgyfaint ar lefel pumedau o amddifadedd yn ardal Betsi Cadwaladr yn debyg iawn i gyfradd Cymru gyfan ar gyfer y ddau ryw ac yn cynyddu'n sylweddol o'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf i'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf**



DS. Nodwch yma fod pumedau o amddifadedd wedi cael eu defnyddio yn hytrach na haneri amddifadedd yn ffigur 4. Peidiwch â chymharu ffigur 3 sy'n dangos CSOE â ffigur 4 sy'n dangos cyfraddau syml

**Ffigur 4: Mae cyfradd mynychder cancer yr ysgyfaint yn uwch yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ym mron bob clwstwr yn ardal Betsi Cadwaladr, gyda bylchau amddifadedd amrywiol, ac yn gyffredinol mae cyfraddau uwch ymysg dynion o gymharu â menywod**



DS. Nodwch yma fod haneri o amddifadedd wedi cael eu defnyddio yn hytrach na phumedau o amddifadedd yn ffigur 3 oherwydd y niferoedd llai o achosion. Peidiwch â chymharu ffigur 3 sy'n dangos CSOE â ffigur 4 sy'n dangos cyfraddau syml


## Adran 1 - Mynychder canser yr ysgyfaint

Er bod y cyfraddau mynychder canser yr ysgyfaint cyffredinol ar gyfer dynion a menywod yn ardal Betsi Cadwaladr yn debyg i'r rhai a welir yng Nghymru yn gyffredinol, mae'r anghydraddoldebau yn ardal Betsi Cadwaladr yn ehangach nag yng Nghymru. Mae graddiant serth o gynnydd o ran mynychder ar gyfer dynion a menywod rhwng ardaloedd bach yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf a'r rhai yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf. Ar gyfer dynion, y bwlch amddifadedd yw'r ehangaf ond un o blith yr holl fyrddau iechyd. Mae'r anghydraddoldeb ymhlith menywod hefyd yn eang. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn destun pryder gan fod y rhan fwyaf o achosion o ganser yr ysgyfaint yn digwydd yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

Mae'r patrwm cyffredinol o anghydraddoldeb hefyd yn amlwg pan fydd yr ardaloedd yn yr hanner â'r amddifadedd mwyaf yn cael eu cymharu â'r hanner â'r amddifadedd lleiaf o fewn pob clwstwr yn ardal Betsi Cadwaladr, er y gellid priodoli rhywfaint o amrywiad i'r niferoedd bach o achosion mewn rhai clystyrau.

## ch) Yn ôl amddifadedd ac oedran


**Ffigur 5: Mae'r bwloch amddifadedd o ran mynychder cancer yr ysgyfaint ymysg y grwpiau oedran iau a hŷn yn debyg ar gyfer Cymru gyfan ac ardal Betsi Cadwaladr. Ar gyfer yr hanner â'r amddifadedd lleiaf yn y grŵp oedran iau, mae cyfradd ardal Betsi Cadwaladr yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru  
Wedi'u trefnu yn ôl y gyfradd oedran-benodol ar gyfer yr hanner â'r amddifadedd lleiaf a'r grŵp oedran 75+



**Ffigur 6: Mae cyfradd mynychder cancer yr ysgyfaint yn ôl hanner o amddifadedd yn dangos llawer o amrywiaeth ar lefel clystyrau meddygon teulu ar gyfer y ddau grŵp oedran, yn bennaf oherwydd y niferoedd bach a ddangosir gan y cyfyngau hyder eang**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr Wedi'u trefnu yn ôl y gyfradd oedran-benodol ar gyfer yr hanner â'r amddifadedd lleiaf a'r grŵp oedran 75+

Gellir gweld gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol hefyd drwy gymharu yr hanner â'r amddifadedd lleiaf a'r hanner â'r amddifadedd mwyaf ar gyfer pob grŵp oedran lle nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfraddau yn y byrddau iechyd yn dangos canlyniadau ystadegol arwyddocaol rhwng yr haneri o amddifadedd, ond gellir gweld llai o ganlyniadau ystadegol arwyddocaol ar lefel clystyrau meddygon teulu oherwydd niferoedd llai a chyfyngau hyder eang.

# 2 Mynychder canser yr ysgyfaint yn ôl cam adeg y diagnosis

## Canfyddiadau allweddol


- Mae'r rhan fwyaf o achosion o ganser yr ysgyfaint yn cael diagnosis ar gam hwyr - mae gan Betsi Cadwaladr gyfran is o achosion o ganser yr ysgyfaint cam hwyr a chyfran uchel o achosion o ganser yr ysgyfaint cam anhysbys o gymharu â Chymru gyfan a byrddau iechyd eraill, ac eithrio Powys
- Mae dosbarthiad y camau'n amrywio'n sylweddol rhwng clystyrau Betsi Cadwaladr - yn y rhan fwyaf o glystyrau mae cyfran uwch o achosion cam hwyr nag achosion cam cynnar neu gam anhysbys, ond mae gan glwstwr Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney gyfran uwch o ganser yr ysgyfaint cam anhysbys nag unrhyw gam arall<sup>b</sup>
- Dim ond clwstwr Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney sydd â chyfran ystadegol arwyddocaol is o achosion o ganser yr ysgyfaint cam hwyr na Betsi Cadwaladr, ond mae hyn yn debygol o ddeillio o'r gyfran fawr o achosion o ganser cam anhysbys yn y clwstwr hwn<sup>b</sup>
- Mae cyfran yr achosion o ganser yr ysgyfaint cam anhysbys yn gyson uwch yn y grŵp oedran hŷn o gymharu â'r grŵp oedran iau ar draws y byrddau iechyd a chlystyrau Betsi Cadwaladr
- Gwelir dosbarthiad tebyg iawn o ran camau ar gyfer y ddau hanner o amddifadedd yn ardal Betsi Cadwaladr
- Nid oes patrwm clir yn nosbarthiad y camau rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlystyrau Betsi Cadwaladr

---

<sup>b</sup> Ceir cyfran uchel o ganser cam anhysbys mewn achosion trawsffiniol lle y caiff pobl eu trin y tu allan i Gymru ac nid oes unrhyw wybodaeth am y cam yn cael ei derbyn gyda'u cofrestrriad canser. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar fwrdd iechyd Powys ac i raddau llai ar fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr.


## a) Yn ôl rhyw

**Ffigur 7: Ceir amrywiaeth yn nosbarthiad camau canser yr ysgyfaint adeg y diagnosis ar hyd a lled Cymru - mae gan Betsi Cadwaladr gyfran ystadegol arwyddocaol is o ganser yr ysgyfaint cam hwyr o gymharu â Chymru ond cyfran ystadegol arwyddocaol uwch o ganser yr ysgyfaint cam anhysbys**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru  
Wedi'u trefnu yn ôl cyfran yr achosion o ganser yr ysgyfaint cam cynnar

**Ffigur 8: Mae dosbarthiad y camau adeg y diagnosis yn amrywio'n sylweddol rhwng clystyrau Betsi Cadwaladr ond yn y rhan fwyaf o'r clystyrau gwelir cyfran uchel o achosion o ganser cam hwyr - Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney yw'r unig glwstwr lle ceir cyfran uwch o ganser cam anhysbys na chanser cam cynnar neu gam hwyr**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr Wedi'u trefnu yn ôl cyfran yr achosion o ganser yr ysgyfaint cam cynnar

Caiff cancer yr ysgyfaint sy'n cael diagnosis o gam un a cham dau ei ddsbarthu fel "cam cynnar". Yn dibynnu ar nifer o ffactorau eraill, mae'n bosibl trin pobl â chanser yr ysgyfaint cam cynnar gyda'r bwriad o'u hiacháu ac mae'r cyfraddau goroesi yn tueddu i fod yn llawer uwch nag ar gyfer clefyd ar gam hwyr. Mae achosion o ganser yr ysgyfaint y gwneir diagnosis ohonynt ar gam tri a phedwar wedi'u dosbarthu fel "cam hwyr" a gellir anelu'r driniaeth at ymestyn y cyfnod goroesi, cynnal ansawdd bywyd a lleddfu symptomau.

Mae cleifion nad oes cam wedi'i gofnodi neu nad oes digon o wybodaeth ar gael am gam y cancer i bennu cam cyffredinol wedi'u dosbarthu fel "cam anhysbys" ar y gofrestrfa ganser. Mae cam anhysbys yn cynnwys:

- achosion tystysgrif marwolaeth yn unig (DCOs) lle y caiff cancer yr ysgyfaint ei nodir ar dystysgrif marwolaeth yn unig a lle nad oes unrhyw wybodaeth bellach ar gael am y cam
- achosion trawsffiniol lle y caiff pobl eu trin y tu allan i Gymru ac nid oes unrhyw wybodaeth am y cam yn cael ei derbyn gyda'u cofrestriad cancer. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar Bowys ac i raddau llai ar fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr (sylwer bod hyn bellach wedi'i gywiro a bod yr holl

## Adran 2 - Mynychder canser yr ysgyfaint yn ôl cam adeg y diagnosis

wybodaeth ar gamau yn cael ei derbyn ar gyfer diagnosis o achosion newydd)

- mae cleifion sydd â chanser yr ysgyfaint ar gam mwy datblygedig (gyda neu heb gyd-afiachusrwydd arall) yn tueddu i beidio â chael biopsi, echdoriadau neu archwiliadau diagnostig pellach, felly nid oes dim gwybodaeth ar gamau ar gael neu mae'r wybodaeth honno'n brin
- cleifion lle mae gwybodaeth anghywir neu anghyflawn am gamau wedi'i chofnodi


Yn unol â gweddi y DU a rhannau eraill o Ewrop, gwneir diagnosis o'r rhan fwyaf o achosion o ganser ar gam hwyr o'r clefyd yng Nghymru.

Betsi Cadwaladr sydd â'r gyfran isaf o achosion o ganser yr ysgyfaint cam hwyr o gymharu â'r byrddau iechyd eraill, ac eithrio Powys. Mae'r gyfran hon yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru. Fodd bynnag, mae ganddi gyfran debyg i Gymru o ganser yr ysgyfaint cam cynnar, gyda chyfran uwch o ganser cam anhysbys. Mae cyfran uchel o achosion o ganser cam anhysbys yn y bwrdd iechyd hwn yn debygol o ddeillio'n rhannol o'r materion trawsffiniol a drafodir uchod. Dyma hefyd yw'r rheswm mwyaf tebygol pam mae cyfran y canser cam hwyr mor isel.

Gwelir amrywiad eang o ran dosbarthiad y camau ymhlith y clystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr. Yng nghlwestwr Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Slatney, mae cyfran fwy o ganser cam anhysbys na chanser cam cynnar neu gam hwyr ond ar gyfer yr holl glystyrau eraill, y gyfran fwyaf a welir yw canser cam hwyr.


## b) Yn ôl oedran

**Ffigur 9: Mae cyfran cancer yr ysgyfaint cam anhysbys yn gyson uwch yn y grŵp oedran hŷn o gymharu â'r grŵp oedran iau ar draws y byrddau iechyd, ond mae llai o amrywiad yng nghyfran y clefyd cam cynnar**



## Adran 2 - Mynychder cancer yr ysgyfaint yn ôl cam adeg y diagnosis

**Ffigur 10: Mae cyfran yr achosion o ganser yr ysgyfaint cam anhysbys yn gyson uwch yn y grŵp oedran hŷn o gymharu â'r grŵp oedran iau yng nghlystyrau Betsi Cadwaladr**



## Adran 2 - Mynychder canser yr ysgyfaint yn ôl cam adeg y diagnosis

Mae dosbarthiad y camau adeg y diagnosis ar gyfer canser yr ysgyfaint yn amrywio yn ôl oedran, ond ar gyfer pob bwrdd iechyd (ac eithrio Powys) a'r rhan fwyaf o glystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr, y categori mwyaf o bell ffordd yw'r cam hwyr. Dim ond clwstwr Glannau Dyfrdwy, Penarlâg a Saltney sydd â chyfran uwch o ganser cam anhysbys na chanser cam hwyr.


Mae cyfran yr achosion sydd ar gam anhysbys yn uwch ar gyfer pobl 75 oed a hŷn o gymharu â phobl iau na 75 oed yn y ddau siart uchod. Ar gyfer pobl iau na 75 oed, dim ond Powys sydd â chyfran uwch o ganser ar gam anhysbys nag ardal Betsi Cadwaladr ac ar gyfer y grŵp oedran hŷn dim ond dau fwrdd iechyd sydd â chyfran uwch.

Mae llai o amrywiad rhwng y grwpiau oedran yn y gyfran sy'n cael diagnosis o glefyd cam cynnar.




### c) Yn ôl amddifadedd

**Ffigur 11: Nid oes llawer o amrywiad o ran dosbarthiad y camau rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn ardal Betsi Cadwaladr, sy'n dangos dosbarthiad camau tebyg iawn ar gyfer y ddau hanner o amddifadedd**



**Ffigur 12: Nid oes patrwm clir yn nosbarthiad y camau rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar draws clystyrau Betsi Cadwaladr, sydd o bosibl yn gysylltiedig â niferoedd bach**



\*\*\* mae'r niferoedd wedi'u hatal oherwydd y nifer fach o achosion

## Adran 2 - Mynychder canser yr ysgyfaint yn ôl cam adeg y diagnosis

Yn gyffredinol, nid oes llawer o amrywiad o ran dosbarthiad y camau rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn ardal Betsi Cadwaladr a nifer o fyrddau iechyd eraill. Mae mwy o amrywiad yn nosbarthiad y camau rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar draws y clystyrau meddygon teulu yn ardal Betsi Cadwaladr. Mewn rhai clystyrau gwelir patrwm tebyg i'r byrddau iechyd gydag ychydig o amrywiaeth rhwng yr haneri amddifadedd tra bod clystyrau eraill yn dangos dosbarthiad mwy ffafriol o ran camau ar gyfer un hanner o amddifadedd o gymharu â'r llall. Mae'r niferoedd ar gyfer dau glwstwr wedi eu hatal oherwydd niferoedd bach ar gyfer rhai camau.


# 3 Cyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint

## Canfyddiadau allweddol

- Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer dynion yn ardal Betsi Cadwaladr yn ystadegol arwyddocaol well na Chymru gyfan, a dyma'r gorau o blith yr holl fyrddau iechyd yng Nghymru
- Y gyfradd o roesi ar gyfer personau yn ardal Betsi Cadwaladr yw'r uchaf o blith yr holl fyrddau iechyd
- Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer menywod yn well nag ar gyfer dynion ar draws y byrddau iechyd ac, yn gyffredinol, ar draws clystyrau Betsi Cadwaladr, er bod gan ddynion yn Nwyfor ac yn Arfon gyfraddau goroesi sydd dros un-a-hanner gwaith yn uwch na'r menywod yn yr un clwstwr
- Mae cyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint yn sylweddol is ymysg y grŵp oedran hŷn o gymharu â'r grŵp oedran iau ym mhob bwrdd iechyd - mae'r amrywiad rhwng byrddau iechyd ychydig yn uwch yn y grŵp oedran hŷn
- Yn ardal Betsi Cadwaladr y mae'r gyfradd o roesi uchaf ar gyfer y ddau grŵp oedran o gymharu â'r holl fyrddau iechyd eraill a Chymru - ond nid yw'n ystadegol arwyddocaol
- Mae'r gyfradd o roesi hefyd yn is yn y grŵp oedran hŷn o gymharu â'r grŵp oedran iau ar gyfer y rhan fwyaf o'r clystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr - dim ond Arfon a Dwyfor sydd â chyfraddau goroesi is yn y grŵp oedran iau, ond mae'r gwahaniaeth rhwng y grwpiau oedran yn y clystyrau hyn yn fach
- Mae'r gwahaniaethau mewn cyfraddau goroesi rhwng dynion a menywod yn tueddu i fod yn ehangach yn y grŵp oedran iau o gymharu â'r grŵp oedran hŷn ar gyfer pob bwrdd iechyd
- Ar y cyfan, nid oes unrhyw duedd glir yng nghyfraddau goroesi cancer yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag amddifadedd ardal ar lefel y bwrdd iechyd a lefel clwstwr yn ardal Betsi Cadwaladr
- Mae gan bobl sy'n cael diagnosis yn 75 oed a hŷn ac sy'n byw yn yr hanner â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru gyfraddau goroesi ystadegol arwyddocaol uwch o bedwar pwynt canran o gymharu â'r rhai yn yr hanner â'r amddifadedd mwyaf


## a) Yn ôl rhyw

**Ffigur 13: Mae'r cyfraddau goroesi cymharol un flwyddyn ar gyfer cancer yr ysgyfaint yn gyson uwch ymhlith menywod na dynion, ond mae'r cyfraddau goroesi ymysg dynion yn ardal Betsi Cadwaladr yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru a dyma'r gyfradd uchaf o blith yr holl fyrddau iechyd**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru  
Wedi'u trefnu yn ôl personau â chyfraddau goroesi cymharol o flwyddyn

**Ffigur 14 Mae'r cyfraddau goroesi cymharol blwyddyn ar gyfer canser yr ysgyfaint yn uwch yn gyffredinol ymhlith menywod na dynion, gyda rhai eithriadau ac amrywiadau rhwng clystyrau**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr  
Wedi'u trefnu yn ôl personau â chyfraddau goroesi cymharol o flwyddyn


Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer canser yr ysgyfaint yn wael o gymharu â rhan fwyaf o fathau cyffredin eraill o ganser.

Ar y cyfan, mae'r cyfraddau goroesi cymharol un flwyddyn 5.7 pwynt canran yn uwch ymhlith menywod na dynion yng Nghymru. Yn gyffredinol, ar gyfer y ddau ryw dim ond amrywiad bach sydd rhwng y byrddau iechyd, ond yn ardal Betsi Cadwaladr, mae'r gyfradd goroesi cymharol ar gyfer dynion yn ystadegol arwyddocaol uwch na chyfradd Cymru gyfan.

Yn yr un modd, mae patrwm cyffredinol o gyfraddau goroesi uwch ymysg menywod o gymharu â dynion ar draws y clystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr, ond mae'r cyfyngau hyder yn eang oherwydd y niferoedd bach.

## b) Yn ôl oedran

**Ffigur 15: Mae'r cyfraddau goroesi yn gyson is yn y grwpiau oedran hŷn o gymharu â'r rhai iau ar gyfer pob bwrdd iechyd. Y cyfraddau goroesi yn ardal Betsi Cadwaladr yw'r uchaf ar gyfer y ddau grŵp oedran ond nid ydynt yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru**




\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru

**Tabl 6: Mae gan fenywod well cyfraddau goroesi na dynion yn y ddau grŵp oedran ym mhob bwrdd iechyd - mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn gyson ehangach yn y grŵp oedran iau o gymharu â'r grŵp oedran hŷn**

| Bwrdd Iechyd           | <75 oed   |  |                      | 75+ oed   |  |                      |
|------------------------|---|--|----------------------|---|--|----------------------|
|                        | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer dynion (%) (CH) | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer menywod (%) (CH) | Gwahaniaeth absoliwt | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer dynion (%) (CH) | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer menywod (%) (CH) | Gwahaniaeth absoliwt |
| <b>Betsi Cadwaladr</b> | 35.3 (31.9, 38.7)                                   | 40.3 (36.4, 44.1)                                    | 5.0                  | 26.9 (23.2, 30.8)                                   | 27.0 (22.7, 31.4)                                    | 0.0                  |
| Hywel Dda              | 29.6 (25.3, 34.0)                                   | 39.0 (33.9, 44.0)                                    | 9.4                  | 21.2 (16.7, 26.2)                                   | 27.7 (21.4, 34.3)                                    | 6.5                  |
| Abertawe Bro Morgannwg | 29.6 (25.8, 33.6)                                   | 39.9 (35.4, 44.5)                                    | 10.3                 | 20.4 (16.2, 25.0)                                   | 25.4 (20.8, 30.2)                                    | 5.0                  |
| Caerdydd a'r Fro       | 29.0 (24.6, 33.5)                                   | 41.8 (36.5, 47.1)                                    | 12.8                 | 16.2 (12.1, 20.9)                                   | 28.6 (22.7, 34.7)                                    | 12.3                 |
| Cwm Taf                | 33.6 (28.8, 38.4)                                   | 38.9 (33.2, 44.6)                                    | 5.3                  | 23.9 (18.3, 29.8)                                   | 24.0 (18.5, 30.0)                                    | 0.2                  |
| Aneurin Bevan          | 32.2 (28.5, 36.0)                                   | 35.8 (31.4, 40.3)                                    | 3.6                  | 19.8 (15.8, 24.1)                                   | 21.7 (17.6, 26.1)                                    | 2.0                  |
| Powys                  | 29.8 (21.7, 38.3)                                   | 41.2 (30.5, 51.4)                                    | 11.4                 | 20.6 (12.8, 29.8)                                   | 22.2 (12.1, 34.2)                                    | 1.6                  |
| <b>Cymru</b>           | 31.9 (30.3, 33.5)                                   | 39.3 (37.4, 41.2)                                    | 7.5                  | 21.9 (20.1, 23.7)                                   | 25.4 (23.4, 27.5)                                    | 3.5                  |

\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru

**Ffigur 16: Mae'r cyfraddau goroesi yn uwch yn gyffredinol yn y grŵp oedran iau yn ôl y disgwyl, ond yn Arfon a Dwyfor gwelir cyfraddau goroesi gwell yn y grŵp oedran hŷn**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr


Mae'r cyfraddau goroesi yn gyson is yn y grwpiau oedran hŷn o gymharu â'r rhai iau ar gyfer pob bwrdd iechyd. Yn ardal Betsi Cadwaladr, mae'r cyfraddau goroesi yn uwch na'r cyfraddau goroesi ar gyfer Cymru, ond nid ydynt yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r cyfraddau goroesi bron ddeg pwynt canran yn uwch yn y grŵp oedran iau o gymharu â'r grŵp oedran hŷn yn ardal Betsi Cadwaladr. Mae tua thraean y bobl ifanc yn goroesi un flwyddyn ar ôl y diagnosis, ond dim ond chwarter y bobl hŷn sy'n gwneud hynny.

Yn ôl y disgwyl, mae'r cyfraddau goroesi'n uwch yn y grŵp oedran iau o gymharu â'r grŵp hŷn ar gyfer y rhan fwyaf o glystyrau yn ardal Betsi Cadwaladr - dim ond Arfon a Dwyfor sydd â chyfraddau goroesi gwell ymysg y grŵp oedran hŷn. Ar gyfer pob grŵp oedran, mae amrywiad rhwng y clystyrau o ran y gyfradd o roesi gymharol gyfatebol yn ardal Betsi Cadwaladr. Mae'r amrywiad yn sgil y niferoedd bach ym mhob clwstwr yn debygol o egluro'r rhan fwyaf o'r gwahaniaethau a welir o fewn y grwpiau oedran. Mae'r cyfyngau hyder yn parhau i fod yn eang heb ddim canlyniadau sy'n ystadegol arwyddocaol wahanol i ganlyniadau Betsi Cadwaladr, ond gwelir gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau oedran yn Ynys Môn a Gogledd Sir Ddinbych.




### c) Yn ôl amddifadedd

**Ffigur 17: Ni welir unrhyw duedd benodol mewn cyfraddau goresi cymharol un flwyddyn ar gyfer cancer yr ysgyfaint yn sgil cynnydd mewn amddifadedd yn unrhyw fwrdd iechyd nac yng Nghymru gyfan**



DS. Nodwch yma fod pumedau o amddifadedd wedi cael eu defnyddio

**Ffigur 18: Ni welir unrhyw duedd benodol mewn cyfraddau goroesi cymharol un flwyddyn ar gyfer cancer yr ysgyfaint yn sgil cynnydd mewn amddifadedd yng nghlystyrau Betsi Cadwaladr**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Betsi Cadwaladr \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Betsi Cadwaladr  
 Wedi'u trefnu yn ôl cyfraddau goroesi cymharol o flwyddyn yn yr hanner â'r amddifadedd mwyaf  
 DS. Nodwch yma fod haneri o amddifadedd wedi cael eu defnyddio yn hytrach na phumedau o amddifadedd  
 oherwydd y nifer lai o achosion

Mae'r diffyg cysylltiad rhwng cyfraddau goroesi cymharol un flwyddyn ar gyfer cancer yr ysgyfaint a mwy o amddifadedd ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd ac ym mhob bwrdd iechyd hefyd yn digwydd ar lefel clwstwr yn ardal Cadwaladr.

**ch) Yn ôl amddifadedd ac oedran****Tabl 7: Mae'r cyfraddau goroesi yn uwch yn gyffredinol ar gyfer yr hanner â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â'r hanner â'r amddifadedd mwyaf, gyda chyfraddau goroesi gwell yn y grŵp oedran iau na'r grŵp oedran hŷn**

|                               | <75 oed  |   | 75+ oed  |   |
|-------------------------------|--|---|--|---|
|                               | Cyfradd orosi blwyddyn yr hanner â'r amddifadedd lleiaf (%) (CH) | Cyfradd orosi blwyddyn yr hanner â'r amddifadedd mwyaf (%) (CH) | Cyfradd orosi blwyddyn yr hanner â'r amddifadedd lleiaf (%) (CH) | Cyfradd orosi blwyddyn yr hanner â'r amddifadedd mwyaf (%) (CH) |
| <b>Betsi Cadwaladr</b>        | 40.7 (37.0, 44.5)  | 33.8 (30.5, 37.2)   | 27.5 (23.5, 31.7)  | 23.3 (19.6, 27.2)   |
| <b>Hywel Dda</b>              | 34.5 (29.9, 39.2)  | 32.7 (28.0, 37.4)   | 24.9 (19.7, 30.4)  | 19.3 (14.5, 24.7)   |
| <b>Abertawe Bro Morgannwg</b> | 38.9 (33.4, 44.3)  | 30.6 (27.1, 34.0)   | 21.5 (16.5, 26.8)  | 20.8 (17.1, 24.8)   |
| <b>Caerdydd a'r Fro</b>       | 36.4 (30.6, 42.3)  | 33.0 (28.8, 37.3)   | 21.2 (16.1, 26.7)  | 18.9 (14.5, 23.7)   |
| <b>Cwm Taf</b>                | 32.1 (23.7, 40.8)  | 35.9 (31.8, 39.9)   | 27.5 (18.4, 37.3)  | 20.2 (16.2, 24.6)   |
| <b>Aneurin Bevan</b>          | 32.1 (26.8, 37.5)  | 33.6 (30.3, 37.0)   | 20.9 (15.7, 26.7)  | 16.9 (13.9, 20.2)   |
| <b>Powys</b>                  | 34.4 (27.0, 41.9)  | 34.6 (21.5, 48.1)   | 21.1 (13.8, 29.3)  | 17.8 (7.2, 32.1)  |
| <b>Cymru</b>                  | 36.8 (34.7, 38.8)  | 33.3 (31.7, 34.8)   | 23.9 (21.9, 26.1)  | 19.9 (18.3, 21.6)   |

\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru

Er nad oes cysylltiad clir rhwng goroesi ac amddifadedd ardal yn ôl pumedau o amddifadedd, mae'n ymddangos bod cysylltiad o ran oedran a haneri amddifadedd. Mae'r cyfraddau goroesi ychydig yn uwch yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar gyfer y ddau grŵp oedran yn ardal Betsi Cadwaladr. Mae'r gwahaniaeth yn y cyfraddau goroesi rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf ac ar gyfer y rhai 75 oed a hŷn yng Nghymru yn ystadegol arwyddocaol.


# 4 Cyfraddau goroesi canser yn ôl cam

## Canfyddiadau allweddol

- Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n cael diagnosis o gam cynnar yn llawer gwell nag ar gyfer canser yr ysgyfaint sy'n cael diagnosis o gam hwyr ac mae'r cyfraddau goroesi yn well yn gyffredinol ar gyfer menywod na dynion ar gyfer y cam cynnar a'r cam hwyr
- Mae gan Betsi Cadwaladr gyfraddau goroesi sy'n ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru ar gyfer canser yr ysgyfaint cam hwyr - mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfraddau goroesi ystadegol arwyddocaol uwch ar gyfer dynion â chanser yr ysgyfaint cam hwyr ond y gyfradd ar gyfer menywod â chanser cam hwyr yw'r uchaf hefyd
- Mae'r cyfraddau goroesi ar gyfer canser yr ysgyfaint cam cynnar yn ystadegol arwyddocaol uwch na'r cyfraddau goroesi cam hwyr yng y rhan fwyaf o nghlystyrau Betsi Cadwaladr - er nad oedd yn bosibl dangos cyfraddau goroesi cam cynnar ar gyfer yr holl glystyrau oherwydd y nifer fach o achosion - mae'r rhan fwyaf o achosion yn y categori cam hwyr
- Mae'r gwahaniaeth yn y cyfraddau goroesi rhwng y grwpiau oedran iau a hŷn ar draws y byrddau iechyd yn ehangach ar gyfer canser yr ysgyfaint cam cynnar o gymharu â chlefyd ar gam hwyr
- Mae gan ardal Betsi Cadwaladr gyfradd goroesi uchel sy'n ystadegol arwyddocaol ar gyfer canser cam hwyr o gymharu â Chymru gyfan
- Ceir cyfraddau goroesi gwell yn yr hanner â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â'r hanner â'r amddifadedd mwyaf ar lefel Cymru, yn enwedig ar gyfer canser yr ysgyfaint cam cynnar - fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ailadrodd ar gyfer pob bwrdd iechyd
- Ar gyfer canser yr ysgyfaint cam hwyr, mae gan ardal Betsi Cadwaladr gyfradd goroesi sy'n ystadegol arwyddocaol waeth na Chymru ar gyfer pobl sy'n byw yn yr hanner â'r amddifadedd mwyaf

## a) Yn ôl rhyw

**Ffigur 19: Mae cyfraddau goroesi cymharol un flwyddyn ar gyfer canser yr ysgyfaint yn llawer gwell ar gyfer y cam cynnar o gymharu â'r cam hwyr ar gyfer pob bwrdd iechyd - mae'r gyfradd oroesi cam hwyr yn ardal Betsi Cadwaladr yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru**



\* yn ystadegol arwyddocaol is na Chymru \*\* yn ystadegol arwyddocaol uwch na Chymru  
Wedi'u trefnu yn ôl personau â chyfradd oroesi gymharol o flwyddyn ar gyfer canser yr ysgyfaint cam hwyr


**Tabl 8: Yn gyffredinol mae cyfraddau goroesi yn well ar gyfer menywod na dynion ar gyfer canser yr ysgyfaint cam cynnar a cham hwyr. Yn ardal Betsi Cadwaladr y mae'r cyfraddau goroesi gorau ar gyfer dynion a menywod sydd â chanser cam hwyr - maent yn ystadegol arwyddocaol well na chyfradd Cymru ar gyfer dynion**

|                               | Cam cynnar  |  | Cam hwyr  |  |
|-------------------------------|---|--|---|--|
|                               | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer dynion (%) (CH) | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer menywod (%) (CH) | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer dynion (%) (CH) | Cyfraddau goroesi blwyddyn ar gyfer menywod (%) (CH) |
| <b>Betsi Cadwaladr</b>        | 72.8 (65.4, 78.8)                                   | 66.9 (59.5, 73.3)                                    | 24.7** (21.9, 27.6)                                 | 28.7 (25.2, 32.3)                                    |
| <b>Hywel Dda</b>              | 68.0 (56.9, 76.8)                                   | 76.1 (65.0, 84.1)                                    | 20.1 (16.9, 23.6)                                   | 28.0 (23.7, 32.5)                                    |
| <b>Abertawe Bro Morgannwg</b> | 70.8 (60.8, 78.7)                                   | 75.9 (67.2, 82.6)                                    | 18.9 (16.0, 22.0)                                   | 26.4 (22.7, 30.3)                                    |
| <b>Cwm Taf</b>                | 70.9 (60.0, 79.3)                                   | 77.4 (66.7, 85.0)                                    | 21.3 (17.6, 25.2)                                   | 22.9 (18.6, 27.4)                                    |
